Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

23/10/26

Annwyl Rieni,

Ar ddiwedd hanner tymor prysur dros ben, hoffwn ddiolch i rieni am eich cefnogaeth i ni fel staff ac fel ysgol.

Nosweithiau Agored- Diolch i bawb am gefnogi'r nosweithiau yn ystod yr wythnos. Roedd yn braf sgwrsio efo rieni, boed wyneb wrth wyneb neu dros alwad ffôn i drafod cynnydd eich plant.

Cymdeithas Rieni ac Athrawon- Diolch i'r pwyllgor am drefnu Disgos Calan Gaeaf neithiwr. Roedd y neuadd yn fwrlwm o hwyl a chyffro! Diolch!

Cyngerdd Mared Williams a Robat Arwyn- Mae bron i wythnos erbyn hyn ers y cyngerdd yn Theatr John Ambrose nos Sadwrn diwethaf. Diolch yn ddiffuant am eich cefnogaeth a dwi siŵr i chi gytuno i ni gael noson arbennig. Braint i ni oedd rhannu llwyfan efo Robat Arwyn, Mared Williams a Nic Parry. Ond heb os- sêr y noson oedd y plant! Canu bendigedig ac ymddygiad eithriadol o dda gan ystyried yr amser a hyd y cyngerdd. Diolch i chwi gyd!

Recordio caneuon- Yn sgil y cyngerdd, rydym wedi trefnu i recordio dwy gan gyda thechnegydd sain, Byddwn yn recordio 'Cana o dy Galon' a 'Dal i gofio mae y Sêr' yng Nghapel Bethania, a hyn ar ddydd Mercher, Tachwedd 4ydd. Y bwriad fydd rhyddhau'r caneuon yn y dyfodol i rieni gael mwynhau.

Gwasanaeth Diolchgarwch- Cawsom wasanaeth hyfryd iawn ym Methania ar fore Dydd Mawrth. Cafwyd gyflwyniadau a chanu arbennig gan Unedau'r ysgol ac anerchiad difyr dros ben gan y Parch. Huw Dylan. Bu iddo droedio i fyd y plant gan blethu cymeriadau ffilmiau Toy Story i'w neges amserol o ddiolchgarwch. Diolch iddo.

Banc Bwyd- Bu i gynrychiolwyr Criw Cymunedol yn dosbarthu holl gynnyrch Diolchgarwch gan deuluoedd yr ysgol i Fanc Bwyd Rhuthun ar brynhawn dydd Mawrth. Diolch i Mr Bob Ellis a Miss Morfydd Jones am ein tywys o amgylch y banc bwyd.

Pêl droed cymysg yr Urdd- Blwyddyn 3 a 4- Bu i ddau dîm pêl droed yr ysgol berfformio'n dda yn y gystadleuaeth bel droed sirol ddoe (er gwaetha'r tywydd ben bore!) Diolch i Mrs Elin Griffiths a Mr Dyfan Lloyd (rhiant) am hyfforddi'r timau. Braf oedd clywed canmoliaeth am agwedd bositif y plant gan rieni oedd yno hefyd. Da iawn chi blantos!

Hanner tymor- Mae'r ysgol yn cau heddiw ar gyfer gwyliau hanner tymor. Bydd yr ysgol yn ail agor i bawb ar ddydd Llun, 2il o Dachwedd.

Mwynhewch seibiant haeddiannol dros yr hanner tymor- a chofiwch gysgodi a swatio adre rhan Storm Austen dros y penwythnos!

Yn gywir,
Dyfan Phillips
PENNAETH
Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

23/10/26

Dear Parents,

At the end of an exceptionally busy half term, I would like to thank parents for your support of us as staff and as a school.

Open Evenings- Thank you to everyone who supported the evenings during the week. It was lovely to speak with parents, whether face to face or over the telephone, to discuss your children's progress.

Parents and Teachers Association (PTA)- Many thanks to the committee for organising the Halloween Discos last night. The hall was buzzing with fun and excitement. Thank you!

Mared Williams and Robat Arwyn Concert- It is almost a week now since the concert at John Ambrose Theatre last Saturday evening. Thank you sincerely for your support, and I am sure you will agree that it was a very special evening. It was a privilege for us to share the stage with Robat Arwyn, Mared Williams and Nic Parry. Without doubt, however, the stars of the evening were the children. Their singing was outstanding and their behaviour was exceptional, especially considering the length and timing of the concert. Thank you all!

Song Recordings- Following the concert, we have arranged to record two songs with a sound engineer. We will be recording *Cana o dy Galon* and *Dal i Gofio Mae'r Sêr* at Bethania Chapel on Wednesday, 4th November. The intention is to release the recordings in the future for parents to enjoy.

Thanksgiving Service- We enjoyed a wonderful service at Bethania on Tuesday morning. There were excellent presentations and singing from the school's Units, together with a highly engaging address from Rev. Huw Dylan

Food Bank- Members of the Community Crew delivered all the Thanksgiving donations from school families to Ruthin Food Bank on Tuesday afternoon. Thank you to Mr Bob Ellis and Miss Morfydd Jones for showing us around the food bank.

Urdd Mixed Football Competition - Years 3 and 4- Two of the school's football teams performed well in yesterday's county football competition, despite the poor weather early in the morning. Thank you to Mrs Elin Griffiths and Mr Dyfan Lloyd (parent) for coaching the teams.

Half Term- The school closes today for the half-term holiday. The school will reopen for all pupils on Monday, 2nd November.
Enjoy a well-deserved break over half term, and remember to stay safe as Storm Austen passes through over the weekend!

Yours sincerely,

Dyfan Phillips
HEADTEACHER
Ysgol Pen Barras